Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Hafodwenog
**Trelech**
**Caerfyrddin**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA33 6RU**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/02/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymunedol Hafodwenog ym mhentref Trelech, tua 14 milltir o dref Caerfyrddin. Fe'i sefydlwyd fel ysgol ardal ym 1972 i wasanaethu cymunedau amaethyddol Alma, Bryn Iwan, Cilrhedyn, Dinas, Gelli-wen, Pandy, Pen-y-bont, Talog a Threlech.

Yn ôl tystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ysgol, nid yw'r ardal yn cael ei hystyried yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddisgybl sydd â hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oes disgyblion o darddiad ethnig lleiafrifol yn yr ysgol.

Ar hyn o bryd, mae 41 o ddisgyblion rhwng pedair ac 11 oed yn yr ysgol. Derbynnir plant i'r ysgol ar ddechrau'r tymor cyn iddynt gyrraedd eu pedair oed, a derbyniant addysg amser llawn o'r cychwyn. Addysgir disgyblion gan ddwy athrawes mewn dau ddosbarth oedrannau cymysg. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu gostyngiad bach yn y niferoedd disgyblion.

Mae 29% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion addysgol arbennig yn derbyn cymorth ychwanegol a thua 5% o ddisgyblion ar ddatganiad anghenion ychwanegol. Mae'r ffigyrau hyn yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2006. Bu newidiadau staffio sylweddol ers y dyddiad hwnnw, gan gynnwys dwy athrawes, un amser llawn ac un rhan amser, a phennaeth newydd a benodwyd ym Medi 2010.

Y Gymraeg yw prif gyfrwng addysg a gwaith yr ysgol. Daw tua 53% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Prif nod polisi iaith yr ysgol yw sicrhau bod y disgyblion yn ddwyieithog cyn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Hafodwenog yn 2012-2013 yw £4,347. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £25,997 a'r lleiafswm yw £2,878. Mae Ysgol Gynradd Hafodwenog yn safle 22ain o'r 108 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob disgybl yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol a hyderus sy'n cymryd diddordeb yn eu gwaith;
- bron pob disgybl yn frwdfrydig, yn gwrando'n astud ac yn cyfrannu'n dda iawn yn y sesiynau dysgu;
- ymddygiad disgyblion ar bob adeg yn dda iawn;
- canlyniadau asesiadau athro ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 ar y lefelau disgwyliedig yn dangos cynnydd da a chyson;
- prosesau'r ysgol i adnabod, deall, ac ymateb i anghenion disgyblion yn gryf;
- cysylltiadau effeithiol gyda'r rhieni a'r gymdeithas leol; a bod
- athrawon yr ysgol yn ymroddgar a'r addysgu'n dda.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- dan arweiniad y pennaeth, bod gan yr ysgol weledigaeth glir a chytûn ynglŷn â'i chyfeiriad strategol a gwerthoedd;
- bod cynlluniau strategol yn cael effaith gadarn ar safonau, lles a darpariaeth ar draws yr ysgol;
- bod safonau'r ysgol yn dangos cynnydd dros y tair blynedd ddiwethaf;
- bod cynllun gwella ysgol yn cysylltu'n glir â'r broses hunan arfarnu, ac yn adnabod blaenoriaethau priodol ar gyfer symud yr ysgol ymlaen; a
- bod diwylliant cryf o gydweithio i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel a lefelau cyflawniad da iawn.

## Argymhellion

A1 Ymestyn cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Codi safonau cyflwyniad a llawysgrifen ar draws yr ysgol

A3 Paratoi cynlluniau penodol ar gyfer sicrhau datblygiad a pharhad yn y medrau yn drawsgwricwlaidd

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau sy'n briodol neu yn is na'r disgwyl yn ôl eu hoed. Mae'r rhan fwyaf ohonynt, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen, yn gwneud cynnydd clir da ymhob un o'r meysydd dysgu, yn enwedig yn eu defnydd o iaith, llythrennedd a'u medrau cyfathrebu yn y Gymraeg. Mae medrau darllen y rhan fwyaf ohonynt yn datblygu'n effeithiol. Maent hefyd yn dangos datblygiad parhaus o ran medrau ysgrifennu cynnar. Gall rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen ysgrifennu'n gywir, ac o fewn ystod addas o gyd-destunau ysgrifenedig.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu'n dda ar eu profiadau dysgu blaenorol. Maent yn dangos cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn mwynhau darllen ac mae ganddynt fedrau darllen da yn y ddwy iaith. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn rhugl, gyda mynegiant a dealltwriaeth dda. Maent yn defnyddio medrau trawsieithu yn hyderus wrth wneud gwaith ymchwil. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau ysgrifennu'n effeithiol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm i bwrpasau gwahanol ac ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd. Er hynny, nid yw cyflwyniad y gwaith a llawysgrifen y plant bob amser yn ddestlus. Mae'r disgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau iaith. Mae pob disgybl yn hollol ddwyieithog erbyn 11 oed.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud. Maent yn siarad yn hyderus ac yn gywir mewn ystod o gyd-destunau diddorol. Maent oll bron yn dangos brwdfrydedd a dyfalbarhad yn eu gwaith. Serch hynny , nid yw medrau rhifedd y disgyblion ar draws y cwricwlwm yn datblygu gystal.

Rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6 yr ysgol â gofal oherwydd bod y niferoedd bychain o blant mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Yn 2012,roedd canran y disgyblion saith oed a oedd yn cyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5) ym mhob maes dysgu yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Roedd canran y disgyblion saith oed a gyflawnodd y deilliant uwch mewn datblygiad personol a chymdeithasol hefyd yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Roedd canlyniadau medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg yn is na chyfartaleddau'r teulu ond yn uwch na Chymru. Mae canlyniadau datblygiad mathemategol yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru.

Yn 2012, mae canlyniadau'r disgyblion 11 oed ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn gyson uwch nag yn ysgolion y teulu a'r ffigurau cenedlaethol ar gyfer pob pwnc.

Dros y blynyddoedd diwethaf roedd y canlyniadau wedi bod yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru. Roedd canran y disgyblion a oedd wedi cyrraedd lefel uwch na'r disgwyl, hefyd yn uwch na'r teulu, a chyfartaleddau Cymru, yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn gosod yr ysgol yn yr 50% uchaf yn 2012. Dros y pum mlynedd ddiwethaf, roedd canlyniadau disgyblion 11 oed a oedd yn cyrraedd lefel uwch na'r disgwyl yn anwastad ond ar y cyfan yn dangos cynnydd. Nid oedd perfformiad y disgyblion mewn mathemateg a gwyddoniaeth gystal a roeddent yn amrywio'n o gymharu â chymaryddion eraill, yn aml yn y 50% isaf o ysgolion tebyg.

Ni fu gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniad merched a bechgyn o ran cyflawni'r lefelau disgwyliedig nac ym mherfformiad disgyblion sydd â'r hawl i ginio ysgol am ddim dros y blynyddoedd diwethaf.

**Lles: Da**

Mae safonau ymddygiad disgyblion yr ysgol ar bob adeg yn arbennig o dda. Ar draws yr ysgol, mae'r holl ddisgyblion yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd. Maent oll yn cydweithio'n effeithiol iawn ac yn cynnal dysgu ei gilydd yn y dosbarth. Mae bron pob un o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd diddordeb byw yn eu gwaith, ac yn gwrando ac ymateb yn dda iawn yn y dosbarth. Maent yn gwrtais iawn tuag at ei gilydd, oedolion ac ymwelwyr. Nid yw'r ysgol wedi cael achos i wahardd unrhyw ddisgybl yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.

Mae holl ddisgyblion Hafodwenog yn teimlo'n iach a diogel yn yr ysgol. Maent yn mwynhau gwersi ymarfer corff rheolaidd yn yr ysgol ac yn mynychu clybiau chwaraeon wedi oriau ysgol. Maent oll yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd bwyta'n iach. Mae'r disgyblion oll yn mwynhau amrywiaeth dda o weithgareddau allgyrsiol rheolaidd gan gynnwys gwersi coginio, campau'r ddraig, garddio, clwb hwyl a'r adran. Mae medrau entrepreneuriaeth y disgyblion yn dda a cheir nifer o flaengareddau llwyddiannus gan gynnwys cwmni labeli'r ysgol a'r siop ffrwythau.

Mae disgyblion yn lleisio barn a chymryd rhan ym mhenderfyniadau sy'n ymwneud â'u hysgol drwy waith y Cyngor Ysgol, y Cyngor Eco a'r Pwyllgor Masnach Deg yn rheolaidd. Drwy'r gweithgareddau amrywiol hyn cânt gyfle i gydweithio gydag aelodau'r o'r gymuned ehangach a'u helpu hwy yn gyson, er enghraifft clwb cinio misol henoed yr ardal. O ganlyniad maent yn datblygu hyder ac agweddau cadarnhaol a pharch tuag at blant eraill ac oedolion. Mae hyn yn gosod sylfaen dda iddynt ar gyfer datblygu eu medrau cymdeithasol a bywyd ymhellach. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau cymdeithasol yn yr ardal.

Mae canran presenoldeb disgyblion yr ysgol dros gyfnod yn uchel ac ar gynnydd. Yn 2011-2012 roedd yn 96.8% sy'n uwch na chanran yr Awdurdod Lleol a Chymru. Mae hyn yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% o ysgolion uchaf yng Nghymru o'u cymharu ag ysgolion tebyg yn ôl hawl i brydau ysgol am ddim. Roedd canran presenoldeb Mae prydlondeb disgyblion hefyd yn dda iawn.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau ysgogol i'w disgyblion, sy'n ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol, ynghyd ag anghenion holl ddisgyblion yr ysgol.

Mae cynllunio hir dymor yr ysgol yn drefnus. Rhoddir sylw priodol i ddatblygu iaith Gymraeg y disgyblion. Mae'r ysgol yn sicrhau bod pwyslais addas ar y dimensiwn Gymraeg yn y cynlluniau gwaith. Mae'r cynlluniau tymor byr yn nodi'r medrau i'w datblygu ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn nodi'r camau datblygiadol o fewn y medrau er mwyn mesur cynnydd y disgyblion yn y medrau yn ddigon gofalus.

Mae'r ysgol yn cynnwys y rhieni ym mhrofiadau dysgu'r disgyblion yn effeithiol iawn trwy ddarparu gweithgareddau 'Dysgu Adref' yn wythnosol. Mae'r tasgau a ddarperir yn cefnogi gwaith y dosbarthiadau ac yn datblygu medrau datrys problemau, ymchwilio, darllen ac ysgrifennu'r disgyblion.

Cynigia'r ysgol amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol diddorol gan gynnwys coginio, pêl droed, garddio a dawnsio gwerin. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion ac mae bron pob disgybl yn mynychu mwy nag un gweithgaredd yn rheolaidd.

Mae'r pwyllgor eco yn weithgar iawn ac mae'r ysgol wedi ennill y faner werdd yn ddiweddar. Mae'r ysgol yn gosod pwyslais mawr am bwysigrwydd cynaliadwyedd a gwarchod yr amgylchfyd. Mae'r ysgol hefyd yn talu sylw priodol i fasnach deg ac mae'r disgyblion yn deall pwysigrwydd arbed ynni, ailgylchu a lleihau gwastraff. Mae dealltwriaeth y disgyblion o'r byd ehangach yn datblygu yn raddol trwy astudio gwlad dramor, megis Lesotho.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon a'r cymorthyddion wybodaeth bynciol addas ac maent yn defnyddio ystod eang o strategaethau i ysbrydoli a herio'r disgyblion. Mae'r athrawon a'r staff cymorth yn gweithio'n effeithiol fel tîm.

Yn y rhan fwyaf o wersi mae'r athrawon yn annog y disgyblion i ddatblygu medrau gweithio'n annibynnol ac yn paratoi gweithgareddau diddorol a heriol ar eu cyfer. Maent yn annog y disgyblion i berchnogi eu dysgu trwy gynllunio ar y cyd, ac yn darparu cyfleoedd priodol ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion.

Defnyddia'r athrawon amrywiaeth dda o ddulliau addysgu er mwyn gwneud y gwersi yn ddiddorol ar gyfer y disgyblion. Maent yn gwneud defnydd da iawn o adnoddau technoleg gwybodaeth er mwyn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion i ymarfer eu medrau weithio ar y cyfrifiaduron, y camerâu clic a robotiaid llawr.

Gwelir enghreifftiau da iawn o farcio pwrpasol ac anogir disgyblion i fanteisio ar y cyfle i wella eu gwaith trwy ymateb i sylwadau craff yr athrawon. Mae'r ffocws ar y disgyblion yn gosod targedau personol ar y cyd â'r athrawon yn nodwedd sydd bellach yn datblygu'n llwyddiannus.

Caiff cynnydd disgyblion ei asesu yn rheolaidd, gan ddefnyddio asesiadau ffurfiol a barn broffesiynol yr athrawon. Defnyddir y wybodaeth yn effeithiol i adnabod a chefnogi anghenion dysgu unigolion.

Caiff y rheini wybodaeth dda iawn am gynnydd a lles eu plant yn rheolaidd. Mae ansawdd yr adroddiadau i'r rhieni yn dda ac yn ateb y gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r ysgol yn darparu amryw o gyfleoedd priodol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.  Mae bron pob disgybl yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd, ac yn deall pwysigrwydd gwerthoedd fel gonestrwydd a pharch er mwyn gweithio'n llwyddiannus fel cymuned.  Gwelir amryw enghreifftiau o ddisgyblion o bob oed yn cynnig cymorth a chyfeillgarwch i eraill.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth unigol da iawn ar faterion addysgol, cymdeithasol a phersonol y disgyblion.  Mae'n cydweithio yn agos iawn gydag asiantaethau allanol ac yn sicrhau bod y disgyblion yn elwa o'r cymorth perthnasol sydd ar gael ar eu cyfer.  Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth cwnsela a'r gwasanaeth seicolegol.

Defnyddir amryw ddulliau addas yn effeithiol i adnabod anghenion arbennig disgyblion, gan gynnwys profion darllen, profion sillafu a barn broffesiynol yr athrawon.  Cynigir cefnogaeth briodol megis grwpiau ymyrraeth, cefnogaeth i unigolion a chymorth o fewn y dosbarthiadau.  Mae trefn fonitro cynnydd addas yn ei lle, a'r disgyblion yn symud mewn ac allan o'r grwpiau ymyrraeth yn briodol fel bo'r angen.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn adlewyrchu'r awyrgylch croesawgar, hapus a chynhwysol. Nodwedd gref yw'r ethos teuluol sy'n seiliedig ar barch at eraill a hawliau disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymagweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth drwy weithdrefnau megis casglu tuag at elusennau.  Mae'r ysgol yn cynnig hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau allgyrsiol.  Datblygir agweddau goddefgarwch yn dda gan sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn rhydd oddi wrth aflonyddwch.

Mae'r amgylchedd dysgu o ansawdd da.  Ceir ystod digonol o adnoddau priodol sy'n gweddu'n dda i anghenion y disgyblion.  Mae'r adeilad a'r cyfleusterau allanol wedi eu datblygu'n dda iawn ac yn cael eu defnyddio i'r eithaf gan ddisgyblion yr ysgol a'r gymuned leol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae gan y pennaeth a'r staff weledigaeth eglur sy'n cael ei pherchnogi gan bawb.

Mae'r pennaeth yn cynnig cyfeiriad strategol pwrpasol i fywyd a gwaith yr ysgol.  Mae yna bwyslais priodol ar wella safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion.  Mae'r tîm dysgu yn cydweithio'n effeithiol i ddatblygu gweithgareddau a ffyrdd o ddysgu ac addysgu sy'n dylanwadu'n bositif ar gyflawniad.  Mae ffocws clir gan bawb yn yr ysgol ar godi safonau a gwelliant parhaus.

Mae gan y corff llywodraethol ymwybyddiaeth glir o sut mae'r ysgol yn perfformio, ac mae’r llywodraethwyr yn herio’n briodol a chefnogi’r ysgol. Maent yn datblygu ymhellach eu harbenigeddau yn ystod teithiau dysgu o gwmpas yr ysgol a thrwy ddefnyddio data yn effeithiol i gymharu perfformiad y disgyblion o fewn y teulu o ysgolion tebyg.

Mae gan yr holl staff gyfrifoldebau a disgrifiadau swyddi clir. Cefnogir eu datblygiad proffesiynol parhaus trwy system effeithiol o reoli perfformiad sydd yn hybu ymhellach y broses o wella’r ysgol.

Mae nifer o flaengareddau lleol a chenedlaethol yn datblygu’n briodol ac yn cyfrannu’n bositif at godi a chynnal safonau.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r gweithdrefnau a’r prosesau hunan arfarnu, y cynllunio strategol effeithiol a’r disgwyliadau uchel ymysg athrawon a disgyblion yn dechrau cael dylanwad cadarnhaol ar safonau disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae’r adroddiad hunan arfarnu o ansawdd da. Mae’r ysgol yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i gefnogi barnau’r adroddiad gan gynnwys data perfformiad, barn rhieni, llywodraethwyr, disgyblion a’r gymuned leol. Mae’r cynllun datblygu yn ddogfen weithredol ac yn cynnwys nifer priodol o flaenoriaethau cyfredol, mentrau i’w hadolygu a mentrau hir dymor. Mae’r cynllun yn cynnwys targedau mesuradwy a symiau penodol o gyllid sy’n gysylltiedig â’r bwriadau.

Mae’r ysgol wedi gweithredu holl argymhellion adroddiad yr arolygiad diwethaf. Mae nifer fechan ohonynt yn parhau yn y cynllun datblygu cyfredol er mwyn eu hymestyn ymhellach a datblygu agweddau newydd arnynt.

Mae’r ysgol yn elwa’n fawr o gymunedau dysgu proffesiynol mewnol ac allanol mewn perthynas ag ansawdd yr addysgu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae cysylltiadau effeithiol iawn gyda’r gymuned a’r rhieni. Gwneir defnydd helaeth o arbenigeddau pobl leol a manteisir ar bob cyfle posibl i’w defnyddio er budd addysg y disgyblion a chodi safonau. Yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi creu amgylchedd dysgu symbylus a diogel trwy adeiladu cysgodfan addysgu’r Cyfnod Sylfaen bwrpasol, darparu ystafell goginio newydd a chreu gardd ar gyfer y clwb garddio trwy gydweithio agos gyda’r rhieni. Mae'r wybodaeth a rennir yn rheolaidd gyda'r rhieni yn ehangu eu gwybodaeth am gwricwlwm a gweithgareddau'r ysgol.

Mae trefniadau pontio cadarn yn eu lle ar gyfer plant sy’n trosglwyddo o’r cylch meithrin i’r ysgol gynradd ac i’r disgyblion sydd ar fin trosglwyddo i’r ysgolion uwchradd. Mae’r trefniadau hyn yn gymorth priodol i’r disgyblion ymgartrefu’n gyflym yn eu hamgylchedd newydd.

Mae’r ysgol yn lefelu a safoni gwaith y disgyblion yn fewnol ac yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd cymedroli gydag ysgolion lleol cynradd ac uwchradd er mwyn sicrhau cysondeb.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r pennaeth a’r corff llywodraethol yn rheoli’r adnoddau a ddyrennir i’r ysgol yn effeithiol. Caiff y gwariant ei fonitro’n rheolaidd i sicrhau fod gan yr ysgol ystod eang a phwrpasol o adnoddau dysgu ac addysgu.

Lleolir athrawon a’r cymorthyddion yn briodol i wneud y defnydd gorau posibl o’u hamser, arbenigedd a phrofiad. Gwna’r athrawon ddefnydd effeithiol o’u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Oherwydd ffactorau megis niferoedd bychain, canran y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a chefndir ieithyddol y disgyblion rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd y ddau gyfnod gyda gofal.

Yn asesiadau athrawon 2012,roedd canran y disgyblion a oedd yn cyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5) o ran medrau Iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg, datblygiad mathemategol, a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru.

Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant uwch yn uwch na chyfartaleddau'r teulu yn y Gymraeg ac o ran datblygiad personol a chymdeithasol ond yn is mewn mathemateg. Wrth gymharu gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru o ran y canran o ddisgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y Dangosydd Cyfnod Sylfaen, sef cyfuniad o'r canlyniadau, yn gosod yr ysgol yn y 50% uchaf. Roedd yr ysgol yn y 25% uchaf o ran datblygiad personol a chymdeithasol, yn yr 50% uchaf o ran cyflawni'r deilliant uwch yn y Gymraeg, ond yn y 25% isaf o ran datblygiad mathemategol.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd canlyniadau disgyblion 11 mlwydd oed ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) tros bedair blynedd yn gyson uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a'r ffigurau cenedlaethol ar gyfer pob pwnc.

Roedd canran y disgyblion a oedd yn cyrraedd lefel uwch hefyd yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu, a Chymru, yn y Gymraeg a'r Saesneg ac roedd hyn yn gosod yr ysgol yn yr 50% uchaf yn 2012. Dros gyfnod, roedd canran y disgyblion a oedd yn cyflawni'r lefel uwch sef lefel 5 yn anwastad ond yn gyffredinol uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion, yr awdurdod lleol a Chymru yn y mwyafrif o flynyddoedd yn arbennig yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng cyflawniad merched a bechgyn o ran y ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni lefelau 4 neu'n uwch, oherwydd y niferoedd bychain o ddisgyblion. Nid oes gwahaniaeth amlwg rhwng canlyniadau'r disgyblion sydd â hawl am ginio am ddim a'r disgyblion sydd heb yr hawl.

Roedd canlyniadau asesiadau medrau llythrennedd disgyblion 11 oed yn gyson wastad. Roedd asesiadau medrau llafar a darllen Cymraeg wedi bod yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru dros y tair blynedd ddiwethaf. Roedd canlyniadau ysgrifennu am 2012 yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru ond wedi bod yn uwch na'r teulu mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Roedd asesiadau o fedrau Saesneg y disgyblion hefyd yn debyg. Roeddent wedi bod yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu mewn llafar a darllen dros y pedair blynedd ddiwethaf, ond yn is mewn ysgrifennu mewn dwy allan o'r pedair blynedd ddiwethaf.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd 30 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur.

Mae’r rhan fwyaf o’r ymatebion yn gadarnhaol iawn. Yn gyffredinol, roedd cyfran yr ymatebion cadarnhaol yn debyg i’r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Mae pob neu bron pob disgybl yn dweud eu bod yn:

- teimlo’n ddiogel yn yr ysgol;
- gwybod at bwy i siarad pan fyddant yn teimlo’n bryderus neu’n ofidus;
- eu bod yn cael llawer o gyfleoedd i gadw’n iach a heini;
- teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol,
- ganddynt ddigon o offer, llyfrau a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith;
- athrawon a staff cymorth yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith; a bod
- yr ysgol yn ymdrin ag unrhyw fwlïo’n effeithiol.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn datgan:

- pryder am ymddygiad rhai disgyblion eraill ar brydiau yn y dosbarth, a
- bod bron pob un o’r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Mae’r ymatebion cadarnhaol i’r ddwy agwedd hon yn uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol.

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Cafwyd 23 ymateb i’r holiadur i rieni neu ofalwyr.

At ei gilydd, mae bron pawb yn mynegi lefelau uchel o foddhad gyda’r ysgol. Mae cyfran ymatebion cadarnhaol y rhieni yn uwch na’r cyfartaledd rieni mewn ysgolion cynradd eraill yng Nghymru.

Mae pob un yn cytuno bod:

- yr ysgol yn cael ei yn cael ei rhedeg yn dda;
- eu plant yn mwynhau’r ysgol;
- eu plant wedi ymgartrefu’n dda wrth ymuno â’r ysgol am y tro cyntaf;
- ymddygiad y plant yn dda;
- ansawdd yr addysgu yn dda;
- amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau;
- yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed, ac i ysgwyddo cyfrifoldebau;
- y staff yn disgwyl i’w plant weithio’n galed ac i wneud eu gorau; a bod
- y gwaith cartref yn adeiladu’n dda ar y gwaith a wna eu plant yn yr ysgol.

Mae ychydig iawn o'r rhieni yn anghytuno â'r datganiad:

- bod eu plant yn gwneud cynnydd da;
- bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer codi cwyn;
- eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am gynnydd eu plentyn;
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem; a
- bod eu plant yn derbyn cefnogaeth briodol ychwanegol mewn perthynas ag anghenion unigol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ann Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Margaret Owenna Davies | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Rhian Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Victoria Hart-Griffiths | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad i holl rieni’r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai’r ysgol anfon copi o’r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |